**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD MERCHER, 26 HYDREF 2022 DYDD MERCHER, 26 HYDREF 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
J. Wilkins
L. Winnett

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaetha Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd
Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd
Swyddog Cyfathrebu a Marchnata

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br>Y Cynghorwyr J. Gardner, J. Hill, H. Trollope a D. Woods. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiad buddiant dilynol:<br><br>**Eitem Rhif 8: Cynllun Ariannol Cronfa Integreiddio Rhanbarthol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorydd W. Hodgins | |
| **No. 4** | **<u>HUNAN-ASESIAD 2021/22 CYNGOR BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Weithredwr Interim.<br><br>Yn dilyn trafodaeth:<br><br>- Nodwyd y byddid angen diwygio manylion y cyfansoddiad gwleidyddol yn y ddogfen cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br><br>- Eglurwyd fod yr wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen yn ôl-weithredol ac nad oedd unrhyw gyllid cyfalaf ar gael i wneud unrhyw waith priffordd pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ar gais y Pwyllgor Craffu caiff y mater hwn ei ymchwilio ymhellach a byddai angen cyflwyno adroddiadau pellach drwy'r broses ddemocrataidd, yn ymwneud ag unrhyw gyfleoedd cyllid posibl yn y dyfodol ac opsiynau ar gyfer y dyfodol. Pe byddai cyllid yn dod ar gael, nodwyd y byddai'n fater i'r Cyngor flaenoriaethu unrhyw waith posibl.<br><br>- Gan fod yr Hunan-asesiad yn ddogfen gyhoeddus, cytunwyd y rhoddir ystyriaeth i fformat dogfennau yn y dyfodol er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Hunan-asesiad 2021/22 y Cyngor i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i rannu gyda phartneriaid allweddol fel yr amlinellir ym mharagraff 2.42 y canllawiau statudol. | |
| **No. 5** | **<u>CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR 2022/27</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau y Prif Weithredwr Interim.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno cynnwys Cynllun Corfforaethol 2022/2027 ar gyfer ei gyhoeddi. | |
| **No. 6** | **<u>DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol/Swyddog Monitro.<br><br>Dilynodd trafodaeth faith pan gytunwyd:<br><br>- Y dylid rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau'r Aelod Llywyddol yn brydlon i gyfathrebu i'r cyhoedd y dyletswyddau a digwyddiadau a gyflawnir. Yn ychwanegol, bod yr Aelod Llywyddol yn paratoi adroddiad ddwywaith y flwyddyn i'r Cyngor yn rhoi manylion y digwyddiadau a fynychodd yn rhinwedd ei swydd yn cynrychioli ac yn hyrwyddo'r Fwrdeistref Sirol.<br><br>- Ychwanegu disgrifiad swydd yr Aelod Llywyddol a diweddaru'r Cyfansoddiad i adlewyrchu unrhyw newidiadau cysylltiedig.<br><br>- Yn ogystal â chopïau electronig o'r Cyfansoddiad, gellir hefyd ddarparu copïau caled pan dderbynnir cais ysgrifenedig.<br><br>- Bod y Pennaeth Cydymffurfiaeth a Chorfforaethol yn paratoi nodyn gwybodaeth cyfreithiol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac opsiynau wrth symud ymlaen i Arweinwyr Grwpiau eu hystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef ymgorffori'r newidiadau a awgrymwyd yn y Cyfansoddiad presennol. | |
| **No. 7** | **ADNEWYDDU GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS AR GYFER TROSEDDAU RHEOLI CŴN**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored i'r Cyhoedd yn Atodiad 1 yr adroddiad. Daw'r Gorchymyn newydd i rym ar 1 Tachwedd 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 8** | **<u>RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL Y GRONFA INTEGREIDDIO RANBARTHOL</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn y cyfarfod tra’i bod yn cael ei hystyried.<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu Pobl wedi cymeradwyo Opsiwn 2.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, na dderbynnir y rhwymedigaethau ariannol a goblygiadau’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol newydd a’i fodel cyllid tapr. | |